**Fideo: Beth y dylai sefydliadau addysg a llywodraethau ei wneud?**

**Peter Harper:** Mae bron pob sefydliad addysg uwch wedi derbyn ein bod mewn argyfwng enfawr. Mae'r sefydliadau hyn wedi mynd ati i gymryd camau i geisio lleihau eu hôl troed carbon eu hunain mewn amrywiaeth o ffyrdd, ond newidiadau ymylol fydd y rhain fel arfer. Nid ydynt yn cael llawer o effaith. Maent yn cael gwared ar wellt yfed plastig yn y ffreutur, neu'n ailgylchu ychydig yn fwy, neu'n gwneud rhywbeth ynglŷn â'r papur. Dim ond un sector bach yn yr economi gyfan yw hynny.

Dylent wneud yr hyn y maent yn ei wneud orau, sef hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr i fynd allan i'r byd yn unigolion medrus a gwybodus. A dylent fod allan yno – miloedd ohonynt bob blwyddyn – yn barod i wireddu'r trawsnewid mawr sydd ei angen.

Er fy mod yn treulio'r rhan fwyaf o'm bywyd ar yr ochr ffordd o fyw a cheisio sicrhau bod pethau'n fwy dymunol, rwyf wedi sylweddoli dros y blynyddoedd diwethaf ein bod yn wynebu argyfwng ffisegol, felly mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hynny, rwy'n credu. Ac mae hynny'n golygu datgarboneiddio'r seilwaith ar raddfa enfawr, sy'n broses wleidyddol, genedlaethol a rhyngwladol gyfunol gan mwyaf.

Y broblem yw, os byddwch yn ceisio dod o hyd i strategaeth ddatgarboneiddio sydd wir yn gweithio'n ffisegol, byddwch yn gweld na allwch ei gwerthu'n wleidyddol. Ar y llaw arall, os dewch o hyd i rywbeth sy'n gweithio'n wleidyddol, fel yr hyn y mae'r llywodraeth yn ei gyflwyno, byddwch yn gweld nad yw'n gweithio'n ffisegol.

Rywsut, mae'n rhaid i ni ddod â'r ddau beth ynghyd ac mae gen i ddiddordeb mawr yn hynny. Felly, yr hyn rwy'n ei ddweud yw bod angen canolbwyntio ar y ffiseg yn gyntaf, ac wedyn gallwch chi ddatblygu'r wleidyddiaeth a'r economeg o gwmpas hynny am eu bod yn fwy hyblyg. Os gwnewch chi bethau'r ffordd arall, allwch chi ddim plygu'r ffiseg. Felly mae'n rhaid i chi ddechrau â'r ffiseg ac yna ddatblygu'r gweddill o gwmpas hynny. Mae hynny'n iawn. Mae'n gwneud synnwyr, on'd yw e?